O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 825 (Cy. 74)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) (Dirymu) 2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) 2007.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 825 (Cy. 74)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) (Dirymu) 2009

Gwnaed	*30 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*1 Ebrill 2009*
Yn dod i rym	*24 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 181 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) (Dirymu) 2009.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Ebrill 2009 ac maent yn gymwys i Gymru.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) 2007(**3**).

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(d) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2007/2311 (Cy.182).

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

30 Mawrth 2009